

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda myfyrwyr Coleg Y Cymoedd
(CYC)**

Dydd Llun, 26 Tachwedd am 10:30am

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal
Pontypridd**

Yn bresennol

Gaynor Davies (GD), Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Andrea Richards (AR), Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Lisa Howell (LH), Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Sophie Nicholls (SN), Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

23 o fyfyrwyr oedd yn arfer mynychu Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen neu Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain.

Cyflwyniadau

Croesawodd Gaynor Davies (GD) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Eglurodd GD fod swyddogion yma heddiw i ofyn yn benodol pam y dewisodd y myfyrwyr goleg dros yr ysgol a beth oedd eu profiad yma.

Adborth

Myfyriwr - Doedd ysgol ddim yn brofiad cadarnhaol. Doedd athrawon ddim yn gwrando arnom ni, ond maen nhw'n gwrando yn y Coleg.

C. GD - Sut mae'r gofal bugeiliol yma?

A. Myfyriwr - Da iawn. Maen nhw'n rhoi cymorth i mi gyda fy ngwaith cwrs ac maen nhw ar gael drwy'r amser i roi cefnogaeth i mi os ydw i'n cael trafferth gyda darn o waith cwrs. Maen nhw hefyd yn gwrando ac maen nhw'n rhoi cymorth i mi os ydw i'n poeni am rywbeth neu os oes problemau personol gyda fi.

Myfyriwr - Mae'n dibynnu ar yr athrawon. Roedd rhai o'r athrawon yn yr ysgol yn wych ond doedd rhai ddim cystal. Dewisais ddod yma gan fod modd i mi wneud BTEC yma. Pe byddwn i wedi aros yn Ysgol Uwchradd Pontypridd byddwn i wedi gorfod cymryd arholiadau. Roeddwn i eisiau astudio cerddoriaeth a busnes ond doedd dim digon o ddisgyblion eisiau astudio cerddoriaeth i gynnal y cwrs. Rydw i'n credu ei bod o'n syniad da i gael chweched dosbarth mawr ym Mryncelynnog oherwydd bydd gyda chi ragor o

ddewis yno gan y bydd yn cael ei ariannu, ond bydd cyfle i chi ddod yma i astudio ar gyfer BTEC.

C. GD – Beth am Safon Uwch?

- A. Myfyriwr - Siaradais â'm ffrindiau yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac fe wnaethon nhw ddweud bod yr athrawon yn rhy brysur yn gweithio gyda disgyblion blynyddoedd 7-11 yn ogystal â'r chweched dosbarth. Does ganddyn nhw ddim yr amser i dreulio gyda disgyblion chweched dosbarth, yn enwedig os ydyn nhw'n cael problemau gyda'i gwaith cwrs.

Myfyriwr - Rydw i'n meddwl bod chweched dosbarth mawr yn syniad gwych. Es i chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac roedd y gefnogaeth a'r dechnoleg yn ofnadwy. Mae'n llawer gwell yma ac rydw i'n gallu gwneud y cwrs cyfrifiadurol penodol y mae angen i mi ei wneud i fynd i'r Brifysgol.

Myfyriwr - Mae'r consortiwm yn llanastr llwyr. Mae athrawon dan bwysau ac roedden ni'n gallu dweud eu bod dan straen. Doedd addysg ôl-16 ddim yn flaenoriaeth. Mae'n flaenoriaeth yma ac rydyn ni'n cael rhagor o sylw. Roedd gyda fi un athro yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac un athro yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Roedd gyda fi lai o gymorth gan oeddwn i'n cael addysg mewn dwy wahanol ysgol. Doedd yr athrawon ddim yn siarad gyda'i gilydd, felly byddwn ni'n cael yr un gwersi dwywaith.

C. GD - Sut beth oedd cwrdd â'r bobl newydd yma?

- A. Myfyriwr - Mae'n well gen i fod yma. Fe wnaethom ni i gyd ddilyn ein llwybrau ein hunain ar ôl TGAU ac rydw i wedi gwneud llawer o ffrindiau yma a chwrdd â fy nghariad. Mae'n ffordd dda i baratoi i fynd i'r brifysgol.

Myfyriwr - Roedd hi'n anodd i mi i ddechrau oherwydd roedd pump o fy ffrindiau agos wedi aros yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Serch hynny, erbyn hyn rydw i'n nabod llawer o bobl o gefndiroedd gwahanol ac rydw i wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd.

C. GD - Beth yw'r gwahaniaethau mawr rhwng y chweched dosbarth yn yr ysgol ac yma yn y coleg?

- A. Myfyriwr - Mae cyfle i chi fynegi eich hunan yn eich ffordd eich hunan yma ac rydych chi'n cael eich derbyn am hynny.

Myfyriwr - Rydyn ni'n cael ein trin fel oedolion ac mae athrawon yn ymddiried ynddon ni yma. Rydyn ni'n cael mynd adref i astudio ac rydw i'n dysgu'n annibynnol mwy yma yn hytrach na chael fy ngorfodi i aros yn yr ysgol.

C. GD - Oes yna agweddau negyddol am gymryd dosbarthiadau chweched dosbarth allan o ysgolion?

A. Myfyriwr - Bydd hi'n anodd i bobl sy'n byw ymhell o'r ysgol.

GD - Byddwn ni'n cynnig cludiant i'r rhai sy'n byw dros ddwy filltir i ffwrdd.

Myfyriwr - Rydyn ni'n cael cludiant yma hefyd, ond mae'n anodd weithiau. Rydyn ni'n dal bysus cyhoeddus ac maen nhw'n gallu bod yn annibynadwy. Mae rhai o'r bysiau'n fysiau ysgol ond maen nhw'n aml yn hwyr oherwydd eu bod nhw eisoes wedi bod â phlant i un ysgol.

GD - Mae angen inni gael y cludiant yn iawn ar gyfer y disgyblion yma felly.

Myfyriwr - Oes.

C. GD - Ydych chi'n meddwl bod lefel eich cwrs yn iawn ar eich cyfer chi?

A. Myfyriwr - Treuliodd ein hathro cemeg Safon Uwch lawer o amser gyda ni i sicrhau ein bod ni'n hapus i wneud lefel y gwaith a pha opsiynau oedd ar gael. Yn yr ysgol, dywedodd yr athrawon "gwnewch y cwrs yma, bydd o'n iawn". Yn ystod diwrnod agored y coleg, siaradais â phobl am 25 munud a rhoddon nhw gyngor i mi ddewis y cwrs cywir ar gyfer fy opsiynau o ran cyrsiau yn y Brifysgol.

Myfyriwr - Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen doedd yr athrawon ddim yn trafod coleg o gwbl. Maen nhw'n dweud mai aros yn y chweched dosbarth fyddai orau, ond dydyn nhw ddim yn gofyn nac yn gwybod beth rydyn ni ei angen. Maen nhw'n dweud eich bod chi yn y chweched dosbarth ac rydych chi'n oedolyn felly rhaid tyfu i fyny os oes problemau gyda chi.

Myfyriwr - Mae'r berthynas gyda'r staff yma yn wych. Maen nhw ar gael ar eich cyfer drwy'r amser ac maen nhw'n gwneud yn siwr fod popeth yn iawn gartref hefyd.

Myfyriwr - Daeth Ysgol Uwchradd Pontypridd â ni yma i'r coleg i weld beth oedd ar gael.

C. AR - Ydych chi'n meddwl bod dod yma wedi bod o fantais i chi?

A. Myfyriwr - ac rydyn ni'n dilyn y cyrsiau rydyn ni eisiau dilyn.

C. GD - Faint ohonoch chi fyddai heb gael y cyfle i astudio'r cwrs rydych chi'n ei astudio nawr petai chi wedi aros yn yr ysgol? A wnewch chi godi eich dwylo?

A. 13 allan o 23 myfyriwr.

Myfyriwr - Yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen roedd modd i mi astudio TG ond ddim cyfrifiadureg. Awgrymodd yr athrawon i mi ymchwilio'r pwnc ar fy liwt fy hun. Dydw i ddim yn gallu gwneud hynny. Mae'n rhaid i mi gael fy nysgu ac rydw i ei angen ar gyfer y cwrs prifysgol rydw i eisiau ei astudio.

C. GD- Ydy'r staff yn rhoi llwybr clir i chi yma?

A. Myfyriwr - Ydyn. Os oes targed gyda chi bydden nhw'n dweud beth yw eich opsiynau er mwyn ei gyflawni.

Myfyriwr - Mae'r tiwtoriaid yn gefnogol iawn ac maen nhw'n mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Maen nhw'n eich helpu chi i ddysgu o'ch camgymeriadau yma yn hytrach na'ch disgyblu chi.

C. AR - Ydych chi'n cael cyngor am brofiad gwaith yma?

A. Myfyriwr - Mae cyfle i mi fynd dramor am bythefnos ar fy nghwrs busnes. Hefyd mae darlithwyr prifysgol yn dod i'n dysgu ni o bryd i'w gilydd.

Myfyriwr - mae gen i ychwanegiadau yma hefyd. Mae cyfle i mi ddysgu pethau ychwanegol os hoffwn i ac os ydw i'n fodlon treulio'r amser yn gwneud hynny.

C. GD - Os ydyn ni'n ystyried buddsoddi mewn ysgolion, beth yw'r ffyrdd gorau i ni gael mewnbwn disgyblion?

A. Myfyriwr - Cynnal achlysuron diddorol i wneud hi'n werth dod i roi mewnbwn.

Myfyriwr - Dangos cyfarpar a thechnoleg.

C. LH - Ydych chi'n meddwl bod yr amgylchedd dysgu yn bwysig i chi?

A. Myfyriwr - Ydw, mae Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen fel carchar. Mae ffensys o'i hamgylch. Mae cymaint o ryddid yma i fynd adref os oes angen i ni wneud hynny.

C. GD - Beth yw eich barn chi am yr amgylchedd dysgu yn y coleg?

- A. Myfyriwr - Mae'r staff yn ymddiried ynddon ni i fynd a dod ac rydyn ni'n ymddiried ynddyn nhw i'n cefnogi ni.

GD - Beth yw effaith hyn ar eich addysg?

Myfyriwr - rwy'n gwybod fy mod yn gyfrifol am fy addysg fy hun ac rydw i'n teimlo'n fwy fel oedolyn. Rydych chi'n colli'ch greddf i lwyddo yn eich addysg os ydych chi'n teimlo'n gaeth mewn ysgol lle does dim lle ar eich cyfer. Dydy pawb ddim yn dysgu yn yr un ffordd.

GD - Ydy ystafelloedd chweched dosbarth yn llawn yn yr ysgol?

Myfyriwr - Ydyn, mae'r ystafelloedd yn llawn ac yna rydych chi'n cael pryd o dafod am grwydro neu mae'n rhaid i chi ofyn am allwedd i ystafell sbâr os oes un. Mae llawer o ystafelloedd gwych ar gyfer astudio ar eich pen eich hun yn y coleg.

C. GD - Oes rywun yn difaru dod yma?

- A. Myfyriwr - Na.

Myfyriwr - Na. Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd yma a dydw i ddim yn cael fy mwlio. Yn yr ysgol mae'n rhaid i chi ddatrys eich problemau eich hunan ac ymladd gan fod yr athrawon yn gwneud dim.

Myfyriwr - Os ydych chi'n cael eich bwlio yma maen nhw'n ei ddatrys. Mae pawb yn wahanol yma ond rydyn ni i gyd yn parchu ein gilydd ac rydyn ni'n oddefgar tuag at ein gilydd.

Myfyriwr - Roedd y bechgyn Addysg Gorfforol yn ffefrynnau yn yr ysgol a doedden nhw ddim yn cael eu cosbi am fwlio.

C. LH – Oes 'na fandaliaeth yma?

- A. Myfyriwr - Mae pawb yn parchu eu hamgylchedd yma. Mae popeth yn lân ac yn daclus. Yn yr ysgol roedd y sychwyr a'r drysau toiled yn hongian oddi ar y waliau a doedd gyda ni ddim ystafelloedd astudio braf. Mae gan y coleg fanau gwych lle rydyn ni'n teimlo'n ddiogel.

C. Myfyriwr - Fydd yr ysgolion 3-16 yn aros ar yr un safle? Fe wnes i wir fwynhau symud i fyny i'r ysgol uwchradd.

- A. GD - Rydyn ni'n ceisio gwneud y cyfnod pontio'n haws i'r disgyblion hynny sy'n ei chael hi'n anodd. Bydd y meysydd chwarae ar wahân ond gallai'r disgyblion hyn helpu gyda'r disgyblion iau a bydd cyfle i'r disgyblion iau

ddefnyddio'r cyfleusterau arbenigol sydd ar gael fel arfer i ddisgyblion ysgol uwchradd.

C. Myfyriwr - Byddai'n dda pe bai'r ysgolion yn dangos yr holl opsiynau i chi yn hytrach na dim ond edrych ar y chweched dosbarth.

A. GD - Byddai, mae angen i ni ddangos amrywiaeth o opsiynau.

Myfyriwr - Es i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman pan gafodd ei rannu, ond doedd y rhaniad ddim yn un cyfeillgar iawn. Roeddwn i'n bryderus iawn fyddwn i ddim yn cael digon o gefnogaeth ond rydw i'n cael cymaint o gefnogaeth yma. Rydw i hyd yn oed yn cael ymatebion e-bost gan athrawon ar y penwythnosau pan fyddaf i wedi gofyn cwestiwn iddyn nhw yn ymwneud â fy ngwaith cwrs.

Myfyriwr - Mae yna lawer rhagor o fynediad at weithgareddau allgyrsiol yma. Rydw i'n aelod o glwb y 'knitting nanas'. Mae yna grŵp cymorth enfawr ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol yma hefyd. Yn fy ngwers gyntaf yma, dywedodd fy athro mai'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud yw parchu ein gilydd ac y byddai'n cael trafodaeth hirfaith gydag unrhyw un a oedd yn anghytuno â hynny. Rydw i'n gwybod efallai does dim digon o arian i greu'r un math o grwpiau cymorth yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, ond doedd pobl ddim yn ddigon hyderus i ddod allan yn yr ysgol. Newidiodd rhai o'm ffrindiau eu henwau yma a byddai'r staff yn helpu yma gan newid yr hyn oedden nhw'n galw nhw i'w wneud yn addas ar eu cyfer.

C. AR - Ydych chi'n meddwl bod cael chweched dosbarth mewn ysgolion yn hen ffasiwn?

A. Myfyriwr - Ydw, mewn ffordd, oherwydd eich bod chi'n teimlo'n gaeth. Gadawodd llawer o athrawon Ysgol Uwchradd Pontypridd gan eu bod nhw dan straen ac roedden nhw'n rhy brysur yn ceisio dysgu blynyddoedd 7-11 hefyd. Mae'r ysgol 3-16 yn iawn ond roeddwn i wrth fy modd yn cwrdd â phobl newydd pan es i i'r ysgol uwchradd a gwneud y newid hwnnw. Roedd llawer o fwlio'n mynd ymlaen yn fy ysgol gynradd, felly roeddwn i'n falch i gwrdd â phobl newydd.

GD - Bydd rhai disgyblion eraill yn dal i ymuno ym mlwyddyn 7, ond rydyn ni'n ceisio lleihau nifer y trosglwyddiadau yn gyffredinol.

Diolchodd GD i bawb am eu cyfraniadau.

Daeth y cyfarfod i ben.